

Ken Skates AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/KS/

Yr Athro Laura McAllister
Cadeirydd
Chwaraeon Cymru
Gerddi Sophia
Caerdydd
CF11 9SW

24 Mawrth 2016

Laura

LLYTHYR CYLCH GWAITH CHWARAEON CYMRU 2016-17

Rwy'n ysgrifennu atoch i bennu cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Chwaraeon Cymru yn 2016-17.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Bwrdd a swyddogion Chwaraeon Cymru am eu hymdrechion a'u llwyddiannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac i chi yn bersonol am arwain y sefydliad drwy'r cyfnod hwnnw.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn a ddaw wedi'u gosod yng nghyd-destun sefyllfa ariannol anodd ar draws y Llywodraeth, ac yn y cyd-estun hwnnw rwy'n ymwybodol eich bod wedi gweithio gyda fy swyddogion i flaenoriaethu'r rhaglen waith drwy ddatblygu'r Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17. Fel y gwyddoch, dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar egwyddorion atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Dylai pob canlyniad gyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) a'r saith o amcanion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'), ac i gael eu cefnogi gan y gweithgarwch, y dangosyddion a'r mesurau perthnasol. Yn unol â'r argymhellion diweddar yn adroddiad yr Archwiliad Mewnol, bydd y prif ganlyniadau a'r dangosyddion perfformiad yn cael eu defnyddio i fesur eich prfformiad wrth gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u pennu yn y llythyr Cylch Gwaith hwn.

Hefyd, dylai'r Cynllun egluro'n sut y byddwn yn sicrhau fod popeth yr ydych yn ei wneud, popeth yr ydych yn ei hwyluso neu yn dylanwadu arno, a'r sefydliadau yr ydych yn eu hariannu, o fudd i bobl Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ddarn o ddeddfwriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n cael eu rhestru yn y Ddeddf feddwl mwy yn yr hirdymor, cydweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd a cheisio osgoi problemau a chydweithio mwy.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd llesiant sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Chwaraeon a chyrrff eraill sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn y Ddeddf osod amcanion llesiant sy'n gwneud y mwyaf o'u cyfraniad tuag at gyflawni'r amcanion ac i gymeryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy, sy'n datgan bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod modd bodloni anghenion y presennol heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion. I'n helpu i roi hynny ar waith, mae'r Ddeddf yn disgrifio pum ffordd o weithio y mae'n rhaid inni eu mabwysiadu. Sef:

- Hirdymor – sicrhau ein bod yn cael cydbwysedd rhwng yr angen i fynd i'r afael ag anghenion tymor byr â'r gallu i fodloni anghenion hirdymor
- Atal – cymeryd camau fydd yn rhwystro problemau rhag digwydd neu waethygu, yn hytrach na dim ond delio â chanlyniadau
- Integreiddio – gweithredu fel y gallwn helpu cyrrff eraill i gyflawni'r amcanion yn y Ddeddf ac osgoi gwneud pethau a allai eu rhwystro rhag gwneud hynny
- Cydweithio – gweithio gydag eraill o fewn ein sefydliad ac / neu yn allanol i helpu i gyflawni'r amcanion
- Cynnwys – sicrhau ein bod yn cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu

Fel un o'r cyrrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau'r Ddeddf, rwy'n disgwyl i'r Cyngor Chwaraeon fabwysiadu dull blaengar, arloesol o gyflawni eich rhaglen o weithgareddau. Yn eich Cynllun Gweithredu ar gyfer 2016/17, mae'n rhaid ichi:

- a) osod a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") sydd wedi eu cynllunio i wneud y mwyaf o'ch cyfraniad tuag at yr amcanion llesiant
- b) gymeryd pob cam rhesymol, wrth gyflawni eich swyddogaethau, i fodloni'r amcanion hynny
- c) defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd hynny o weithio ym mhopeth a wnewch

Byddaf yn disgwyl i'ch dull o weithredu'r Ddeddf a sut yr ydych yn cydweithio ag eraill tuag at yr amcanion i fod yn ffocws mewn trafodaethau noddi rheolaidd.

Mae'r cadarnhad o'ch cymorth grant ar gyfer y flwyddyn i'w gael yn **Atodiad A**. Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016, mae'n bosibl y bydd agenda newydd strategol ar waith ac efallai y bydd yn rhaid ichi newid eich cynlluniau i adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol yn y gyllideb ac/neu newidiadau i gyfeiriad polisiau. Yn y cyfamser, wrth ddefnyddio'r cyllid a defnyddio eich Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17, hoffwn i chi gynnwys y meysydd blaenoriaeth canlynol.

Defnyddio dull yn seiliedig ar dystiolaeth i gyflawni ar gyfer amrywiaeth o bobl i fodloni anghenion grwpiau anodd eu cyrraedd.

Mae'n amlwg o ganlyniadau Arolwg ar Oedolion Egniol 2014 bod darparu amrywiaeth o

weithgarwch corfforol i ategu chwaraeon traddodiadol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys pob oedolyn. Hoffwn weld yn eich Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17 sut yr ydych yn bwriadu ymateb i ganlyniadau'r arolwg, ac yn benodol sut y byddwch yn cydweithio â phartneriaid i gynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau sydd â galw mawr amdanynt.

Er bod y darlun cyffredinol yn bositif, roedd canlyniadau'r **Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion 2015** ac **Arolwg ar Oedolion Egnïol 2014** ill dau yn tynnu sylw at yr angen am gamau pellach i leihau y gwahaniaeth rhwng y rhywiau ac i fynd i'r afael â'r bwch sydd yng nghyfranogiad y rhai hynny sy'n anabl, sy'n byw mewn ardaloedd llai cyfoethog neu mewn tlogdi, ac unigolion a chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i flaenoriaethu ein buddsoddiadau i ganiatâu i bobl ifanc ac oedolion, yn awr ac yn y dyfodol, fanteisio yn gorfforol ac yn feddyliol o gymeryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon. Felly hefyd, dylai'r buddsoddiadau yr ydych yn eu gwneud fynd i'r afael yn broactif â'r agenda gydraddoldeb yn ogystal â threchu tlogdi.

Bydd yr arolwg unedig newydd yn dechrau yn 2016-17 a bydd yn caniatâu inni ddadansoddi pethau yn llawer manylach ar draws pynciau. Wrth ddatblygu eich strategaeth ar gyfer Ymchwil a Gwerthuso, hoffwn i'ch tîm Dealltwriaeth gydweithio'n agos â swyddogion y Polisi Chwaraeon i edrych ar y posibilïadau o ddefnyddio eich data presennol a'r data o'r arolwg unedig i gefnogi datblygiad polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac i lywio eich strategaeth fuddsoddi ar gyfer partneriaethau. Hoffwn hefyd weld tystiolaeth eich bod chi a'ch partneriaid yn defnyddio canlyniadau'r arolwg i ddylanwadu ar benderfyniadau a buddsoddiadau strategol a gweithredol.

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Rydych wedi cadarnhau eich ymrwymiad i wella llywodraethu ac arweinyddiaeth drwy gefnogi'r sector i ddatblygu y Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth ar gyfer Cymru. Rwy'n disgwyl i Chwaraeon Cymru barhau i arwain a chefnogi'r sector yn y maes pwysig hwn a gosod y safon fel sefydliad enghreifftiol sy'n defnyddio holl egwyddorion llywodraethu da ym mhob un o'i pholisïau, gweithgareddau ac ymddygiadau.

Yn eich ymgais i fod yn sefydliad sy'n perfformio'n uchel, mae safbwyntiau'r sector, eich partneriaid buddsoddi a'ch staff yn hollbwysig i adeiladu ar enw da Chwaraeon Cymru. Fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad yr ydych yn ei ddatblygu mewn partneriaeth â swyddogion Polisiâu Chwaraeon, hoffwn weld sut yr ydych yn mesur perfformiad Chwaraeon Cymru fel sefydliad sy'n cynnwys safbwyntiau a chanfyddiadau eich rhanddeiliaid a'ch partneriaid.

Mae Atebolrwydd a Thryloywder yn elfen amlwg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn un o 7 egwyddor Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Cymru. Rwy'n ymwybodol eich bod wedi bod yn datblygu, ochr yn ochr â'ch egwyddorion buddsoddi, proses dryloyw i fesur perfformiad eich partneriaid cyflenwi. Byddem yn disgwyl i Chwaraeon Cymru gyhoeddi manylion yr egwyddorion buddsoddi ar gyfer partneriaid a'r dyfarniadau cyllid drwy gyhoeddi'r wybodaeth yn glir ar eich gwefan.

Cydweithio

Mae chwaraeon yn gwneud cyfraniad hollbwysig i iechyd a lles y genedl ac mae'n gwella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau. Os ydym i fanteisio i'r eithaf ar y cyfraniad hwnnw, mae'n bwysig bod Chwaraeon Cymru yn parhau i gydweithio yn effeithiol gyda phartneriaid yn y sector chwaraeon ac mewn sectorau eraill. Hoffewn weld yn eich Cynllun Busnes sut yr ydych yn bwriadu cysylltu â'r partneriaid hynny a pha gyfeiriad yr ydych yn bwriadu ei gymeryd o ran yr agenda iechyd, ac i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu tlogdi. Byddai o gymorth pe gallai eich cynllun yn egluro'r swyddogaeth benodol yr ydych yn gweld Chwaraeon Cymru yn ei chwarae a sut fydd eich buddsoddiadau yn

cefnogi'r swyddogaeth honno.

Fel y gwyddoch, mae 2016 yn Flwyddyn Antur ac rwy'n croesawu eich cydweithrediad yn ddiweddar gyda Croeso Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn y gynhadledd lwyddiannus ar y Flwyddyn Antur ym Mhlas Menai. Rwy'n disgwyl i'r cydweithio hwnnw barhau ac ymestyn i'r Flwyddyn Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018.

Argymhellion Gweithgarwch Corfforol

Rwy'n ddiolchgar ichi am gefnogi gwaith y Grŵp Gweithredol ar Weithgarwch Corfforol a Chyfarwyddwr y Rhaglen Gweithgarwch Corfforol. Mae'n annhebygol y bydd y grŵp yn cyfarfod eto cyn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ond bydd y Cyfarwyddwr Rhaglenni yn parhau i ddatblygu'r argymhellion a rhai camau dros dro. Mae eich cyfraniad at y gwaith hwn, ar lefel swyddogol, yn bwysig fel ein bod yn cadw momentwm i ddatblygu atebion ymarferol a chydweithredu, gan rannu adnoddau i sicrhau bod Cymru yn genedl mwy egniol, llewyrchus a iachach.

Model ar gyfer Darparu Chwaraeon Cymunedol

Y Llywodraeth newydd fydd yn penderfynu ar yr achos busnes ar gyfer unrhyw newidiadau i ddarparu chwaraeon cymunedol. Yn y cyfamser, rwy'n fodlon i chi barhau i gysylltu â'r sector yn ehangach i egluro a thrafod y dadansoddiad cost a budd yr ydych wedi'i wneud i baratoi'r achos.

Rhaglen Chwaraeon Ysgolion

Rwy'n ymwybodol bod Campau'r Ddraig a 5x60, fel dwy haen o Raglen Chwaraeon i Ysgolion Chwaraeon Cymru, wedi cael eu hadolygu ryw dro yn y gorffennol ac efallai eu bod wedi datblygu o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, o ystyried y gwaith yr ydych wedi ei wneud ar y model darparu Chwaraeon Cymunedol newydd a'r newid polisi gyda'r Cwricwlwm Cenedlaethol, hoffem wybod sut y bydd y rhaglen yn ymateb i ganlyniadau yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion, a sut y gallai fod ar ffurf wahanol i ategu'r cwricwlwm ac i gael effaith barhaol ar chwaraeon cymunedol.

Cyfleusterau Chwaraeon

Rwy'n falch o'r gwaith yr ydych wedi ei arwain yn datblygu'r Glasbrint Cyfleusterau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn gweithio gyda'r Grŵp Cydweithio 3G a fy swyddogion i lywio a herio cynigion am fuddsoddiadau i'r seilwaith gydag elfen o chwaraeon. Rwy'n siŵr y byddwch yn parhau i arwain yn broactif ar weithredu argymhellion y Glasbrint ac i gefnogi cynllunio a rheoli cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru yn well, gan gynnwys trosglwyddo cyfleusterau chwaraeon cymunedol yn llwyddiannus a rhoi mynediad i'r gymuned i gyfleusterau mewn ysgolion.

Llwyddiant Parhaol mewn Chwaraeon

Mae'r Strategaeth Chwaraeon Elitaidd newydd wedi sefydlu yr amcanion strategol o ran targedau ar gyfer medalau y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, y cylch cyfredol a'r cylch nesaf, am gynrychiolaeth o Gymru ar y rhaglenni UK World Class, ac rwy'n ymwybodol y bydd y tîm Elitaidd yn cwblhau dadansoddiad o fedalau ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2018 yn ystod y flwyddyn. Mae'r Strategaeth Chwaraeon Elitaidd newydd hefyd yn trafod pwysigrwydd cydnabod a meithrin doniau ifanc gorau Cymru i weld y lefel o llwyddiant yr ydym wedi'i weld yn ddiweddar, ymhell i'r dyfodol. Rwy'n cytuno'n gyfangwbl ag uchelgais Chwaraeon Cymru na ddylai unrhyw berson ifanc dawnus fynd heb gymorth. Hoffwn weld rhagor o fanylion eich cynlluniau i sicrhau bod cymaint â phosib o'n doniau yn cael eu meithrin, eu cyfeirio a'u datblygu, a bod unrhyw rwystr cymdeithasol, economaidd neu ddaearyddol yn cael eu hystyried, a'ch bod yn mynd i'r afael â hwy. Dylai hyn ystyried canfyddiadau y gwerthusiad annibynnol o Gemau Cymru a'i ddyfodol. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn i Chwaraeon Cymru gyflwyno eu cynlluniau i Lywodraeth Cymru erbyn mis Awst 2016, a chynnig a fydd yn galluogi i'r athletwyr mwyaf dawnus yng Nghymru gael eu

cydnabod a'u meithrin i sicrhau llwyddiant rhyngwladol.

Incwm o ffynonellau eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i annog y cyrff y mae yn eu noddi a'u partneriaid i sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol i ategu'r cymorth grant a'ch incwm o'r Loteri Cenedlaethol. Rwy'n croesawu eich dull o fod yn fwy masnachol a datblygu strategaeth fasnachol ar gyfer y chwaraeon. Hoffwn dderbyn adroddiad ar sut y mae hyn yn datblygu ym mis Medi 2016.



Ken Skates AC / AM

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

CYMORTH GRANT

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu Cymorth Grant o £22,437m i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2016-17. Mae'r gyllideb wedi'i nodi'n fanwl isod ac mae'n cynnwys darpariaeth barhaus i ddarparu ymrwymiad Nofio am Ddim y Rhaglen Lywodraethu.

Dyraniad Cyllid Cymorth Grant

	Cynlluniau 2016-17 (£000oedd)
Refeniw (ariannol)	
Costau Gweithredu	1,327
Nofio am Ddim	3,750
Gwariant Cyfredol	19,936
Derbyniadau Cyfredol	-3,700
Cyfanswm Refeniw (ariannol)	21,313
Cyfalaf	
Gwariant Cyfalaf	345
Cyfanswm Cyfalaf	345
Cyllidebau nad ydynt yn ariannol	
Dibrisiant	779
Cyfanswm nad yw yn ariannol	779

Mae cyfanswm y cymorth grant yn y ddarpariaeth uchaf, ac mae'n seiliedig ar adnoddau. Rwy'n disgwyl i Chwaraeon Cymru gadw at y ffigurau hyn ar gyfer y llinell gyllidebol cymaint â phosib ac i nodi unrhyw newidiadau a ragwelir cyn gynted â phosib drwy gyfarfodydd monitro chwarterol. Mae cymorth grant yn parhau i fod yn amod o ran cydymffurfio gyda chynnwys y Ddogfen Fframwaith.

Hoffwn eich annog i drafod drafft cynnar o'ch Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17 gyda'r Gangen Polisi Chwaraeon cyn gynted â phosib i sicrhau ein bod yn cael y cymeradwyo terfynol a'r llofnodi. Bydd perfformiad Chwaraeon Cymru yn cael ei fesur gan ei gynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol o fewn y Llythyr Cylch Gwaith hwn, a'r canlyniadau, y gweithgarwch, y dangosyddion a'r mesurau y cytunwyd arnynt yn y cynllun busnes.

Bydd y trefniadau ar gyfer monitro perfformiad a chynnydd Chwaraeon Cymru yn parhau ar ffurf cyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogol, a'n cyfarfodydd ni. Hoffwn ichi ddarparu adroddiad ar eich perfformiad yn 2015-16 cyn ein cyfarfod yn ystod yr haf ac adroddiad ar eich perfformiad hanner blwyddyn 2016-17 cyn ein cyfarfod yn yr hydref.